Cyfranogiad Tenantiaid, Ymgynghori a Mentrau Cymunedol

Grŵp Cynefin

Mwy na thai • More than housing

CYFRANOGIAD TENANTIAID

Be' ydy cyfranogiad tenantiaid a pham ei fod yn bwysig?

Pwrpas Cyfranogiad Tenantiaid ydy rhoi llais i chi ynghylch eich gwasanaethau tai. Mae'n golygu y medrwch chi fod yn rhan o wneud y penderfyniadau sy'n effeithio arnoch chi, eich cartref a'ch cymuned.

Mae Grŵp Cynefin eisiau gwybod be ydy eich barn chi am y gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu. Rydych yn haeddu'r gwasanaeth gorau posibl gennym ni, a thrwy eich cynnwys chi yn sut rydyn ni'n darparu gwasanaethau rydyn ni'n hyderus y gallwn wella'r gwasanaethau hyn yn barhaus.

Credwn po fwyaf rydych chi'n ymwneud â'r Gymdeithas, y mwyaf bodlon fyddwch chi â'r gwasanaethau rydych chi'n eu derbyn gennym ni. Ein gweledigaeth ydy creu awyrgylch o bartneriaeth ac ymddiriedaeth.

Sut fedra' i gymryd rhan?

Rydyn ni'n gwybod eich bod chi'n bobl brysur, a bod gan rai ohonoch chi ymrwymiadau teulu a gwaith. Rydyn ni hefyd yn gwybod eich bod chi'n parhau i fod eisiau dylanwadu ar y gwasanaethau rydych chi'n eu derbyn. Rydyn ni wedi datblygu ystod eang o gyfleoedd i chi gyfranogi, gan ystyried hyn.

A fedra' i gyfrannu syniadau heb ymuno â grŵp neu bwyllgor?

Medrwch, chi biau'r dewis. Fe gewch chi ymwneud gymaint neu gyn lleied ag y dymunwch. Rydyn ni bob amser yn awyddus i wrando ar yr hyn sydd gennych chi i'w ddweud. Os hoffech chi gymryd rhan ond nad oes yr un o'r dewisiadau isod at eich dant, cysylltwch â'r Tîm Mentrau Cymunedol i rannu eich syniadau â ni.

Pa gefnogaeth fedrwch chi ei gynnig os ydw i'n dewis cymryd rhan?

Fe wnawn ni ddarparu unrhyw hyfforddiant sydd ei angen arnoch chi i gymryd rhan yn effeithiol, ac ad-dalu costau teitho a gofal plant rhesymol, lle bo'n briodol.

Gwahanol ffyrdd o gyfranogi

Allwedd Lefel Ymrwymiad / Amser:

ISEL **CANOLIG** **UCHEL**

Gwybodaeth

Efallai eich bod chi'n dymuno cael eich hysbysu am yr hyn sy'n digwydd yn Grŵp Cynefin, yn ogystal â gwybodaeth berthnasol arall. Rydych chi'n medru gwneud hyn drwy: ddarllen ein cylchlythyr 'Calon' neu ein Adroddiad Blynyddol; edrych ar arddangosfeydd a hysbysiadau yn ein swyddfeydd; darllen ein taflenni gwybodaeth a'r llythyrau rydyn ni'n eu hanfon atoch chi; dderbyn cyngor wyneb i wyneb e.e. cyngor ar ynni; neu drwy edrych ar ein gwefan (www.grwpcynefin.org), ein tudalen Facebook (facebook.com/grwpcynefin) neu ein dilyn ar Twitter (twitter.com/Grwp_Cynefin).

Holiaduron / Ymgynghori

Rydyn ni'n cynnal arolygon yn rheolaidd trwy anfon holiaduron drwy'r post, eich holi ar y ffôn neu eich holi ar garreg y drws. Mae'r canlyniadau yn ein galluogi i wella'r gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu i'n tenantiaid, yn ogystal â sicrhau bod eich mewnbwn chi fel tenantiaid yn cael ei gynnwys yn ein strategaethau a'n polisïau.

Diwrnod Hwyl / Cynadleddau

Mae Grŵp Cynefin yn trefnu Diwrnodau Hwyl a Chynadleddau. Darperir gweithgareddau yn ogystal â chyfle i chi gwrdd â staff y Gymdeithas mewn modd anffurfiol. Rydyn ni hefyd yn estyn gwahoddiad i nifer o asiantaethau a sefydliadau fod yno i ddarparu gwybodaeth ddefnyddiol a pherthnasol i chi

Y Wibdaith

Mae Grŵp Cynefin yn trefnu gwibdaith ar adegau, lle rydyn ni'n ymweld â'n tenantiaid mewn ardal benodol. Mae hyn yn ychwanegol at yr ymweliadau gan staff gweithredol ac ymweld ag ystadau. Pwrpas y wibdaith ydy hyrwyddo gwaith y Gymdeithas a rhoi unrhyw wybodaeth a allai fod yn ddefnyddiol i chi, er enghraifft, cyngor effeithiolrwydd ynni.

Cyfarfod Blynyddol

Mae tenantiaid sy'n aelodau o'r Gymdeithas yn cael gwahoddiad i Gyfarfod Blynyddol Grŵp Cynefin a gynhelir ym mis Gorffennaf bob blwyddyn er mwyn sicrhau ein bod yn parhau'n atebol i'n tenantiaid. Cynhelir y digwyddiad mewn lleoliad gwahanol yn ein ardal weithredol bob blwyddyn, a darperir bwyd a chludiant. Mae aelodaeth yn agored i bob tenant.

Siopwyr Dirgel

Mae defnyddio Siopwyr Dirgel yn ddull o wirio lefel y gwasanaeth a ddarperir gan y Gymdeithas. Mae'r tenantiaid yn cael hyfforddiant yn gyntaf, ac yna'n cael tasgau i'w cyflawni a'u mesur yn erbyn ein Safonau Gwasanaeth. Mae'r tasgau'n amrywio o ymweld â'n derbynfeydd, ffonio, ysgrifennu llythyrau neu e-bost, a chyflwyno'r canlyniadau i'r Gymdeithas.

Grwpiau Cymunedol

Gall grwpiau o'r fath helpu i ddatrys problemau yn y gymuned a hyrwyddo gweithgareddau cymunedol - gan wneud eich cymuned yn lle gwell i fyw ynddi. Mae'r Tîm Mentrau Cymunedol yn darparu cymorth a chefnogaeth i grwpiau o'r fath. Os oes gennych ddiddordeb mewn cychwyn grŵp er budd eich cymuned neu os hoffwch wybod pa grwpiau sydd yn bodoli yn eich ardal chi cysylltwch â'r tîm

Llais Cynefin

Panel o denantiaid sy'n fodlon i'r Gymdeithas ymgynghori â nhw drwy'r post neu dros e-byst ar amrediad eang o faterion sy'n effeithio arnynt, yn amrywio o broblemau yn eu hardal leol i newidiadau i bolisïau a gweithdrefnau. Cynigir cynllun cymhelliant i aelodau'r grŵp yma.

Gweithgorau Tasg a Gorffen

Mae Grŵp Cynefin yn adolygu gwasanaethau penodol o dro i dro e.e. Ymdrin ag Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Cynnal a Chadw a Chydraddoldeb ac Amrywiaeth ac ati. Rydyn ni'n ffurfio Gweithgor Gorchwyl a Gorffen sy'n cynnwys staff a thenantiaid a fydd yn cyfarfod yn rheolaidd am gyfnod byr i adolygu'r gwasanaeth dan sylw yn drylwyr.

Gweithgor Cyfranogiad Tenantiaid

Mae'r Gweithgor Cyfranogiad Tenantiaid yn cyfarfod i fonitro gwaith y Tîm Mentrau Cymunedol. Mae'r Gweithgor hwn yn gyfrifol am fonitro cynnydd ein Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid a Datblygu Cymunedol. Mae'r Gweithgor yn cynnwys aelodau o staff o wahanol adrannau'r Gymdeithas, ynghyd â thenantiaid (rhai ohonynt yn aelodau'r Pwyllgor Cwsmeriaid a Chymunedau) a holl aelodau'r Tîm Mentrau Cymunedol.

Panel Cyhoeddiadau

Panel sydd yn edrych ar gyhoeddiadau'r Gymdeithas sydd yn mynd allan i denantiaid er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn gyfeillgar i'r defnyddiwr.

Mae'r grŵp yn helpu wrth archwilio dogfennau presennol yn ogystal â helpu i greu dogfennau newydd.

Grŵp Cynnal a Chadw

Nod y Grŵp yw cefnogi gwelliant parhaus y gwasanaeth cynnal a chadw drwy fwy o ddylanwad a chyfranogiad tenantiaid. Mae aelodau'n derbyn hyfforddiant cyffredinol am y Gymdeithas a hyfforddiant mwy penodol ar waith y Tîm Cynnal a Chadw a natur y gwaith.

Panel Recriwtio

Dyma gyfle i denantiaid fod yn rhan o broses penodi staff newydd Grŵp Cynefin. Mae hyfforddiant recriwtio ar gael i unrhyw denant sydd gyda diddordeb.

Tenant Archwilwyr

Swyddogaeth y Tenant Archwilwyr ydy monitro safon y gwasanaeth a ddarperir i denantiaid er mwyn tynnu sylw at arferion da ac awgrymu unrhyw feysydd i'w gwella. Mae'r criw yn archwilio ein gwasanaethau yn fanwl yn erbyn ein Safonau Gwasanaeth. Fel aelod o'r grŵp byddwch yn helpu i lunio adroddiadau sy'n cyflwyno argymhellion i'r Uwch Reolwyr a'r Bwrdd Rheoli. Rhoir hyfforddiant llawn i unrhyw un sy'n dymuno bod yn denant archwilwr.

Tenant Aelodau ar y Pwyllgor Cwsmeriaid a Chymunedau

Mae aelodau'r Pwyllgor efo awdurdod dirprwyedig dros weithrediadau a pholisïau gweithredol y Gymdeithas. Cynhelir y cyfarfodydd o leiaf pedwar gwaith y flwyddyn. Mae'n ofynnol meddu ar brofiad, gwybodaeth a sgiliau penodol i fod yn aelod o'r Pwyllgor, ond trefnir hyfforddiant i'r holl aelodau newydd.

Sut fedra i wneud awgrymiadau?

Rydyn ni'n croesawu sylwadau adeiladol am ein gwasanaethau, y sefydliad yn gyffredinol neu'r ffordd rydyn ni'n gweithio. Os hoffech chi gyflwyno awgrym, mae croeso i chi gysylltu efo'ch swyddfa leol i drafod eich awgrym â'r staff neu llenwi'r ffurflen ymholi ar ein gwefan www.grwpcynefin.org.

Mentrau Cymunedol

Mae'r Tîm Mentrau Cymunedol hefyd yn ymdrin ag amrywiaeth eang o faterion cymunedol. Gall hyn gynnwys cynorthwyo i gynllunio, ariannu a chynnal prosiectau a digwyddiadau yn y gymuned lle mae tenantiaid a thrigolion Grŵp Cynefin yn byw, ond y mae'r gymuned ehangach yn elwa ohonynt hefyd.

Cysylltwch efo'r tîm os oes gennych chi unrhyw syniadau cadarnhaol a allai fod o fudd i'ch cymuned a'ch amgylchedd leol.

Grantiau Cymunedol

Mae'r cynllun Grant Cymunedol yn caniatáu i chi a'ch cymdogion ddod at eich gilydd i wneud cais am grant o hyd at £500 i ddatblygu prosiect neu syniad y bydd y gymuned ehangach yn elwa ohono.

Grant Camau i Gyflogaeth

Mae'r cynllun grant Camau i Gyflogaeth yn rhoi cyfle i denantiaid wneud cais am hyd at £300 i baratoi eu hunain ar gyfer cyflogaeth. Cysylltwch â'r tîm Mentrau Cymunedol am fwy o wybodaeth am yr uchod.